



RCS



Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

Adroddiad Terfynol Cam 1 a 2: Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

Chwefror y 18^{fed} 2020

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau ac argymhellion yn dilyn gwerthusiad tair blynedd o hyd ar gyfer 2 gyfnod cyntaf Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), a lansiwyd yn 2016. Y cyfarwyddyd oedd i ddadansoddi cynnydd ac effeithiau ynghlwm â set graidd o gwestiynau. Mae'r grynodeb a phrif adroddiad sy'n cyd-fynd gydag o yn ymdrin â'r cwestiynau hynny.

2. Mae'r CCG yn bodoli er mwyn cyfrannu tuag at heriau hir sefydlog er mwyn cefnogi'r bobl hynny 'y mae'n anodd ymwneud gyda nhw' yng Nghymru tuag at y farchnad lafur. Nod hyn felly fydd gofalu na fydd y rheiny sydd ynghlwm â'r cynllun yn symud allan o dlodi ac yn cyflawni deilliannau bywyd gwell. Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod cyd-destun strategol er mwyn ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gyda rhwymedigaethau i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar y tymor hirach a chydweithio'n well gyda'i gilydd.

3. Mae'r CCG yn dangos gwerth elfen hyblyg yn y polisi cyflogadwyedd er mwyn meithrin arloesedd, dulliau sy'n ymateb i anghenion lleol a chefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer pobl arbennig o fregus lle na chaiff eu hanghenion eu bodloni wrth ddefnyddio dulliau sefydliadol mwy.

4. Gan ymadael â'r UE, mae cyfle gan Gymru i adolygu dulliau i helpu pobl ddod o hyd i waith yng nghyd-destun amodau ac anghenion Cymru. Mae'r gwerthusiad yn manteisio ar y canfyddiadau i awgrymu sut gellir datblygu trefniad olynol er mwyn gwella buddion gan gynnal gwerth craidd y dull cyfredol.

Damcaniaeth Newid a Rhesymeg Ymyrraeth y CCG

5. Mae strwythur y CCG yn cydymffurfio gydag egwyddorion llwyddiant er mwyn cydnabod fod angen *capasiti* i weithredu ac yna'r *cyfleoedd* er mwyn dod o hyd i waith a pharhau gyda'r gwaith.

6. Mae gofynion atebolrwydd yr UE ac ehangach yn peri bod angen targedau ystyriol a meintioliad. Fodd bynnag, bu targedau gwreiddiol y CCG yn rhy benodol gyda graddfeydd amser afrealistig. Roedd hyn yn anghyson gyda'r her o gefnogi pobl sy'n dioddef amgylchiadau heriol. Y canlyniad oedd mynd ati i ailbroffilio'r targedau ac ymestyn y graddfeydd amser ar gyfer cyflawni. Buasai unrhyw gronfa sy'n olynu'r CCG yn elwa o brosesau i adolygu targedau a mesurau llwyddiant gyda phwyslais mwy ar ddeilliannau tymor hirach ar gyfer unigolion.

Wnaeth y Pedair Cronfa Unigol sy'n rhan o'r CCG gyflawni eu hamcanion?

7. Bu i gyfnodau 1 a 2 gefnogi 15,433 o unigolion am £15,980,538 yn ogystal â chyllid cyfatebol o £6,147,358 (cyfanswm o £22,127,590), yn eithrio ychydig o ran daliadau ar gyfer dyfarniadau wedi'u terfynu cyn eu cwblhau. Gan asesu canlyniadau a chymharu gyda thargedau rhifiadol wedi'u hailbroffilio, mae cronfeydd GCC a DC sy'n targedu pobl

25+ yn dangos perfformiad cadarnhaol yn eang. Yn wahanol i hyn, bu i gronfeydd ieuenctid (16-24) GCC a DC danberfformio a bydd angen cynnal adolygiad hanfodol o gronfa DC.

8. Fodd bynnag, nid ydy rhifiadol yn adlewyrchu amgylchiadau heriol sawl un o'r unigolion rydym yn eu cefnogi, nac ychwaith y deilliannau wedi'u cyflawni ar gyfer unigolion y CCG. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn awgrymu adolygiad o'r nodweddion, dosbarthiad a daearyddiaeth angen, niferoedd dichonol o'r rheiny sydd angen cefnogaeth a sut mae amrywiaeth o ysgogiadau polisi cyhoeddus (gan gynnwys y CCG yn cydweithio er mwyn sicrhau'r effaith a gwerth am arian mwyaf posib.

Sut mae dulliau amrywiol buddiolwyr yn effeithio ar ddeilliannau: beth oedd yn effeithiol ar gyfer grwpiau targed penodol a pha rai oedd yn llai llwyddiannus?

9. Yn y rhan fwyaf o achosion, bu inni ganfod ychydig iawn o wahaniaeth o ran effeithiolrwydd mudiadau yn ymwneud gyda gwahanol grwpiau targed unwaith y mae'r dyfarniadau ar waith. Yn hytrach, mae ymyraethau effeithiol yn dibynnu ar gefnogaeth brofiadol yn briodol a galluog a rhoi ymarfer da ar waith yn effeithiol. Bu'r rhan fwyaf o fuddiolwyr y CCG yn ymroddgar, galluog ac wedi mabwysiadu dulliau addas i'r pwrpas er mwyn cefnogi unigolion. Rydym yn amcan bod 95% o'r rheiny sy'n cyflawni dyfarniadau'r CCG yn cyd-fynd â'r categori hwn. Fodd bynnag, buasai modd gwella deilliannau'r CCG drwy ehangu a chyfundrefnu cydweithio rhwng mudiadau. Mae nifer o ddimensiynau ynghlwm â hyn:

- a) Llwybrau cyfeirio effeithiol a chefnogaeth ar gyfer prosesau all fod yn heriol ar gyfer dogfennau sy'n dangos tystiolaeth o gymhwysedd yr unigolion sy'n cymryd rhan.
- b) Swyddogaeth buddiolwyr arbenigol gydag arbenigedd mewn meysydd fel iechyd meddwl neu drais yn y cartref a fu'n rhagweithiol yn ymwneud â'u grwpiau cleient.
- c) Ymwybyddiaeth sefydliadol a chydweithio, gydag asiantaethau eraill i ddatblygu cydweithio, rhannu gwybodaeth yn well a lleihau'r tebygolrwydd y caiff rhai pobl eu hesgeuluso.

Ydy'r cynllun yn ymwneud â grwpiau targed yn llwyddiannus, wedi'u gwahanu gan y ddemograffeg, ac eto, beth fu'n llwyddiannus a beth fu'n aflwyddiannus?

10. Mae'r CCG yn cyrraedd a chefnogi pobl mewn amgylchiadau heriol yn llwyddiannus. Fodd bynnag mae cydbwysedd yr unigolion sy'n cymryd rhan sy'n wrywaidd a benywaidd yn 55% a 45% ac mae'r nifer o unigolion sy'n cymryd rhan o Gefndir Du, Asiaidd a Grwpiau Ethnig Lleiafrifol (BAME) yn 4.5% o gymharu â 5.4% ledled poblogaeth Cymru: fe ddylid adolygu'r anghydbwyseddau amlwg hyn ar gyfer unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Rydym hefyd yn awgrymu ichi werthuso sut i fodloni amcanion Llywodraeth Cymru o ran y Cyflog Byw Gwirioneddol : bydd buddiolwyr y CCG yn derbyn

ad-daliadau o leiafysymiau statudol a does dim modd iddyn nhw ychwanegu at eu henillion o dan gyllid cyfatebol.

Asesu'r effaith ar unigolion o ran datblygu sgiliau a'u gallu i ddod o hyd i waith.

11. Unwaith y bu i'r unigolion ymwneud â'r cynllun, bu iddyn nhw elwa'n gyson o gefnogaeth. Mae'r cydbwysedd rhwng pobl wedi'u helpu i ddod o hyd i waith (82%) a lleoliadau gwaith (18%), neu wirfoddoli neu waith tymor hirach yn adlewyrchu os byddwch yn ymwneud â phobl 'anodd eu cyrraedd', nid ydyw'n syndod bod cymaint o unigolion yn elwa, ond maen nhw ymhell o ddod o hyd i waith. Bydd angen cefnogaeth dros gyfnodau estynedig o amser ar bobl o'r fath er mwyn medru ymuno â'r farchnad lafur. Yn aml iawn mae diffyg parhad o gefnogaeth i bobl wedi iddyn nhw gwblhau eu cyfnod gyda'r CCG. Fel arfer, yr hiraf y bydd unigolyn yn anweithredol yn economaidd, y mwyaf o rwystrau maen nhw'n eu hwynebu i ymuno â'r farchnad lafur a'r mwyaf o gefnogaeth fydd ei angen arnyn nhw i gyflawni hyn. Roedd newidiadau Cam 2 yn gam petrus i'r cyfeiriad cywir.

12. Pan fo'r CCG ar ei orau, mae'n llwyddo i ddod o hyd i leoliadau gwaith priodol a chyfleoedd tymor hirach : mae llwyddiant yn dibynnu llawer ar allu buddiolwyr i gynnig cefnogaeth effeithiol i'r unigolion sy'n cymryd rhan, ynghyd â rhwydweithio lle mae'r cyfleoedd ar gael.

Yr helaethrwydd y mae'r CCG yn ychwanegu gwerth at gyflawniad cynlluniau perthnasol eraill.

13. Er gwaethaf cyfleoedd i ychwanegu mwy o werth, mae'r CCG yn ennill ei le, yn aml heb unrhyw lwybr amlwg neu ddeniadol ar gyfer cefnogaeth i bobl fregus. Mae'r CCG hefyd yn dangos sut mae mudiadau'r trydydd sector yn medru ychwanegu gwerth, yn enwedig yn lleol, ac wrth ddod o hyd i ddulliau a chyfleoedd creadigol y tu hwnt i'r brif ffrwd: mae 86% o fuddiolwyr y CCG yn fudiadau trydydd sector (wedi'u diffinio'n eang).

Sut mae'r CCG yn cyfrannu tuag at amcanion Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a threchu tlodi e.e. drwy annog a chefnogi mudiadau sy'n talu'r cyflog byw.

14. Mae adnabod cysylltiadau achlysurol rhwng cydweithio cymharol tymor byr gydag unigolion (y CCG) a nodau strategol tymor hirach yn heriol a chaiff ei waethygu gan absenoldeb monitro wedi cymryd rhan effeithiol er mwyn asesu sut mae unigolion sy'n cymryd rhan yn perfformio dros amser (methiant cyffredin gyda mentrau yn ymwneud â dod o hyd i waith).

15. Fodd bynnag, un amcan gwaelodol craidd sydd gan y CCG ydy 'gwrthdlodi': bu i'r CCG gyfrannu drwy fynd i'r afael ag achos allweddol tlodi, iechyd gwael ac eithrio cymdeithasol, h.y. diweithdra ymysg y rheiny sydd fwyaf bregus. Er enghraifft, mae'n helpu'r rheiny sy'n byw gydag iechyd meddwl gwael, sy'n gaeth i sylweddau neu ag anawsterau dysgu tuag at ddod o hyd i waith neu fanteisio ar gyfleoedd gwaith gwirfoddol. Mae hyn yn ffactor sylweddol o ran gwella lles unigolion, teuluoedd a'r gymuned yn y pen draw. Dengys adroddiadau gwerthuso sut mae'r CCG yn trawsnewid

bywydau drwy roi hwb i hyder, datblygu sgiliau meddal a chaled a helpu cyfran i ddod o hyd i waith tymor hirach neu fanteisio ar gyfleoedd.

Yr helaethrwydd y mae'r cynllun yn integreiddio Datblygu Cynaliadwy o ran Codi Ymwybyddiaeth, Addysg a Hyfforddiant.

16. Ni chafodd unrhyw fesurau penodol eu gosod ar gyfer asesu effaith y CCG. Fodd bynnag, dengys data dangosyddion allweddol gan gofnodion y CCGC fod meini prawf cynaliadwy eang ynghlwm â sawl gweithgaredd y mae'r CCG yn eu cefnogi.

Sut caiff dewisiadau iaith eu hadnabod a'u bodloni: Gyda Chymraeg a Saesneg fel agwedd allweddol, ond hefyd cydnabod grwpiau lleiafrifol.

Dewisodd 17. 2% o'r unigolion sy'n cymryd rhan gydweithio gyda ni yn y Gymraeg, fodd bynnag, dydy hyn ddim yn dangos union faint oedd y Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu. Roedd unigolion Cymraeg eu hiaith yn llai hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyddestunau swyddogol (e.e. ffurflenni swyddogol), er mae'n bosib y bydd llawer yn wylidwrus am ymwneud mewn unrhyw ffordd gyda'r 'byd swyddogol'. Mae ffurflenni'r CCG ar gael yn y Gymraeg, ond roedd amheuan o ran arddull yr iaith gafodd ei ddefnyddio.

18. Bu i'r defnydd o'r Gymraeg mewn safleoedd anffurfiol greu ymrwymiad cymdeithasol o ymddiriedaeth bwysig rhwng unigolion Cymraeg eu hiaith a chyrrff buddiolwyr, er os nad ydyw wedi'i gydnabod fel iaith swyddogol y cwrs. Bu i rai unigolion a buddiolwyr bwysleisio pwysigrwydd siarad Cymraeg wrth geisio dod o hyd i waith mewn ardal lle mae'r trigolion yn Gymraeg eu hiaith.

System a Phrosesau'r CCG

19. Wrth groesawu rôl y CCGC, bu i fuddiolwyr y CCG godi pryderon cyson ynghylch argostau gweinyddol. Gan ystyried y cyfyngiadau ynghlwm â bod yn gorff cyfryngol wedi'i gysegru gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (SCEC), bu i GCGC wrando ar ddarparwyr, 'lleddfu' ychydig o feini prawf heriol y CCG ac fe gafodd newidiadau cam 2 eu croesawu'n benodol. Yn rhydd o ofynion yr UE yn y dyfodol o bosib, mae unrhyw drefniad olynol yn gyfle ar gyfer adolygiad hanfodol o brosesau gweinyddol i symleiddio a llunio systemau a gofynion cymesur.

Edrych i'r Dyfodol

20. Gan ystyried unrhyw drefniad yn y dyfodol, rydym yn argymhell ichi gynnal y ffocws priodol ar unigolion anoddaf eu cyrraedd, ond symud i fuddsoddiad tymor hirach tuag at yr unigolion hynny a hyblygrwydd er mwyn caniatáu i brosiectau hirach sydd â'r gallu i gyfuno sawl cam, all wneud y canlynol:

- a) Cychwyn gan roi hwb i hyder a lles h.y. sgiliau bywyd sylfaenol; yna pan fo'n briodol
- b) Paratoi'r gweithlu; yna
- c) Gweithgaredd profiadol fel gwirfoddoli gyda chefnogaeth neu weithgareddau yn y gweithle gyda chefnogaeth a helpu pobl i ddod o hyd i waith â thâl neu waith gwirfoddol tymor hirach; ac fel bo'r angen
- d) Cefnogaeth wedi cymryd rhan unwaith y bydd yr unigolion yn dod o hyd i waith: mae unigolion yn gwerthfawrogi dull 'cadw mewn cysylltiad', gall helpu i gynnal newidiadau bywyd cadarnhaol, ac mae'n gyson gyda'r angen i fonitro sut maen nhw'n llwyddo yn y tymor hirach.

21. Buasai prosiectau o'r fath yn annog cydweithio rhwng gwahanol fudiadau i lunio llwybrau ar gyfer yr unigolion sy'n cymryd rhan, a rhannu ymroddiad tuag at ddeilliannau. Caiff gweithwyr allweddol, gyda sgiliau 'ymwneud â phobl' priodol, gwybodaeth o'r ardal a chysylltiadau i gydweithio gyda'r unigolion yn ystod y cyfnodau o gefnogaeth, eu neilltuo ar gyfer pob unigolyn sy'n cymryd rhan. Fe ddylai hyn hefyd wella rhwydweithio gyda chyflogwyr addas a pharod.

22. Rydym hefyd yn adnabod y dymunoldeb i fwrw golwg ar gyfleoedd gwaith yn y dyfodol : gall fod yn anochel (a hyd yn oed buddiol i rai) y caiff unigolion eu cyflogi mewn sectorau sy'n dirywio fel y diwydiant manwerthu, ond mae adnabod lle mae cyfleoedd sy'n cynyddu o bosib a pharu nhw pan fo'n bosib gydag unigolion addas yn ddymunol. Gall hyn, er enghraifft, fwrw golwg ar a hyrwyddo cyfleoedd drwy ymrwymadau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol neu syniadau'r Economi Sylfaenol yng Nghymru.

UKRCS Chwefror 2020

Argymhellion y Gwerthusiad

23. Caiff yr argymhellion hyn eu hechdynnu o'r prif adroddiad gwerthuso sy'n datblygu'r esboniad o'r grynodedb uchod, ac mae'n egluro'r sail resymegol ar gyfer pob un yn fanylach.

Argymhelliad 1: ail-gydbwyso targedau craidd ar gyfer unrhyw drefniad olynol er mwyn gosod mwy o bwysau ar gofnodi ansawdd yr amcanion ar gyfer unigolion a'r gwerth tymor hirach ar gyfer yr unigolion hynny a'u cymunedau, gyda thargedau rhifiadol sy'n fwy realistig o ran ardaloedd lleol ac o ran graddfeydd amser ar gyfer cyflawni.

Argymhelliad 2: adolygu unrhyw drefniadau llywio olynol, gan gynnwys unrhyw swydd ar gyfer y Panel Anweithgarwch Economaidd, er mwyn creu adnodd trosolwg strategol, ac adnodd trosolwg gweithredol ar wahân ond cysylltiedig.

Argymhelliad 3: adolygu dosbarthiad a nifer yr unigolion sydd angen cefnogaeth ynghyd â nodweddion y grwpiau hynny sydd anoddaf eu cyrraedd er mwyn pennu'r dichonolrwydd ar gyfer dull mwy systematig o ran cydweithio rhwng mudiadau a rhaglenni.

Argymhelliad 4: Mae'n bosib y bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu natur a lleoliad y gweithgareddau a'r rhaglenni i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed sydd ddim mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET), yn benodol, i bennu lle mae bylchau o ran cefnogaeth – ai pheidio.

Argymhelliad 5: dylai unrhyw gynllun olynol i'r CCG adolygu'r gofynion cyllid cyfatebol cyfredol sy'n gwahaniaethu rhwng yr ardal ddaearyddol gaiff ei ddiffinio fel DC ar hyn o bryd a'r ardal gaiff ei ddiffinio fel GCC gyda'r amcan o gyflawni cydraddoldeb yn cefnogi pobl sy'n wynebu amgylchiadau heriol.

Argymhelliad 6: dylai trefniad olynol dichonol adolygu sut i ddatblygu dulliau mwy systemig o ran ailgyfeiriadau rhwng mudiadau, er enghraifft trwy Feddygon Teulu, Canolfannau Gwaith, y gwasanaethau cymdeithasol, adrannau datblygu economaidd awdurdodau lleol ac ysgolion hefyd o bosib.

Argymhelliad 7: cefnogaeth effeithiol i unigolion sy'n cymryd rhan gan fuddiolwyr a hwyluswyr: ystyried yr egwyddorion wedi'u crybwyll isod ac yn y Ddogfen Weithiol fel sail ar gyfer arweiniad atodol ar ymarfer da, a hefyd i gynnig cymorth i staff y CCG i asesu effeithiolrwydd a pherfformiad ar y sail hon.

Argymhelliad 8: archwilio'r dichonolrwydd ar gyfer proses dosbarthu ar y cyd er mwyn ysgogi unigolion i gymryd rhan, cyflawni gweithgareddau a chynllunio cefnogaeth tymor hirach i unigolion sy'n cymryd rhan lle bo'i angen.

Argymhelliad 9: dylai trefniad yn y dyfodol adolygu graddfeydd amser prosiectau gyda'r bwriad o ymestyn hyd y prosiect ar gyfer yr unigolion hynny fyddai'n elwa o gefnogaeth wedi'i gynllunio a'i gydlynu dros gyfnod hirach.

Argymhelliad 10: ystyried ymarferoldeb o osod pwyslais ar gyfer cam 3 o ran annog cynigion sy'n ymwneud â grwpiau BAME ac ymwneud gyda merched er mwyn cywiro anghydbwysedd hyd yn hyn, ynghyd â mynd i'r afael â nhw drwy unrhyw drefniad olynol.

Argymhelliad 11: Mae'n bosib y bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r canllaw cytundebau dim oriau er mwyn ystyried gall hyn fod yn ddeiliant os ydy'r unigolyn sy'n cymryd rhan yn derbyn gwaith wythnosol dros gyfnod rhesymol o amser.

Argymhelliad 12: gall unrhyw drefniad olynol gynnwys gofyniad a chymhelliant ar gyfer olrhain deilliannau'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect, yn ddelfrydol ar gyfer holl unigolion sy'n cymryd rhan dros gyfnod o 2 -3 blynedd, ond ar sail sampl o leiaf.

Argymhelliad 13: tystiolaeth o ddeilliannau a chwblhad: Mae'n bosib y bydd y CCGC yn adnabod a rhannu ymarfer gorau yn olrhain unigolion sy'n cymryd rhan yn effeithiol ac atgyfnerthu fod hyn yn ofyniad gan y CCG, i feithrin ymarfer da ymysg buddiolwyr yn cynnal neu alluogi cefnogaeth i unigolion wedi iddyn nhw ymwneud â'r CCG.

Argymhelliad 14: gwella rhannu data fel amcan tymor byr a thymor hirach: rydym yn awgrymu fod Llywodraeth Cymru'n cydweithio gyda mudiadau perthnasol, gan gynnwys y CCGC i adolygu'r dichonolrwydd ar gyfer datblygu trefniadau rhannu data a gallu yng nghyd-destun mentrau dod o hyd i waith sy'n targedu'r 'rheiny sy'n anoddaf eu cyrraedd'.

Argymhelliad 15: dylai unrhyw drefniad olynol wneud y canlynol:

- a) Cynnwys adolygiad Llywodraeth Cymru o ariannu lleoliadau gwaith ar y gyfradd byw gwirioneddol yn hytrach na lleiafysymiau statudol.
- b) Adolygu'r dichonolrwydd ar gyfer prosiectau hirach sy'n cynnig cefnogaeth dros gyfres o gamau ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth barhaus.
- c) Adolygu'r achos am elfen hyblyg a dewisol i gynnig cefnogaeth i unigolion gydag anghenion anarferol neu barhaus ar gyfer cefnogaeth.

Argymhelliad 16: ystyried y dichonolrwydd ar gyfer symlhau unrhyw ffurflenni yn y Gymraeg yn y dyfodol yn ymwneud ag unrhyw drefniad olynol.

Argymhelliad 17: wrth ddylunio unrhyw drefniad olynol i'r CCG, dylid cynnig adolygiad trylwyr o drefniadau gweinyddol gyda'r bwriad o symlhau cymaint â phosib yn gyson gydag atebolrwydd hanfodol a gofynion cysylltiedig a dylunio trefniadau cymesur sy'n cydweddu â maint y dyfarniadau. Dylai'r CGGC, Llywodraeth Cymru a chyrrff buddiolwyr profiadol gydweithio er mwyn cyflawni hyn.

Argymhelliad 18: cynnal a datblygu hyfforddiant a gweithgareddau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth i fuddiolwyr.

Argymhelliad 19: sefydlu fframwaith o fuddiolwyr ymarfer gorau sy'n medru ac yn fodlon rhannu profiad gyda darparwyr eraill.

Argymhelliad 20: cynnig modd i fuddiolwyr rannu profiad, dysgu, ystyried yr hynny sy'n llwyddiannus a rhannu ymarfer gorau o ran y rhai sy'n cymryd rhan: gall hyn fod yn ymarferol a / neu'n llythrennol. Gall hyn gynnwys blaenoriaeth gynnar i ddatblygu dadansoddiad 'yr hyn sy'n llwyddiannus' gyda rhanddeiliaid i ymwneud ag adnabod llwybrau effeithiol i ddod o hyd i waith ar gyfer grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

Argymhelliad 21: datblygu camau cyfredol i rannu a mynd i'r afael gyda rhwystredigaethau'r CGGC a buddiolwyr drwy gyfathrebu a chydweithio i osod disgwyliadau, adnabod heriau a dangos fod y CGGC yn barod i fynd i'r afael gyda phroblemau, a datrys neu leihau problemau gwirioneddol.

Argymhelliad 22: datblygu cefnogaeth staff ymhellach i helpu staff ddygymod â dyletswydd heriol i gyflawni cydbwysedd rhwng cynnal perthnasau a chyfathrebiadau cynhyrchiol a sicrhau cydymffurfiaeth a chysondeb effeithiol wrth ymdrin â nhw.

Argymhelliad 23: o ran unrhyw gynllun olynol, datblygu SDP CCG y CGGC i symleiddio cyflwyno data buddiolwyr lle'n bosib ond hefyd datblygu'r systemau casglu data, mynediad a gallu dadansodol i asesu deilliannau ac effeithiau er dibenion cofnodi. Dylid datblygu deilliannau ac effeithiau ar y cyd ag ymchwilydd proffesiynol sy'n gyfarwydd â mesur a gwerthuso deilliannau ac effeithiau.

